

Cyfarfod	Pwyllgor Craffu Gofal
Dyddiad	14 Tachwedd 2019
Teitl	Prosiect Gofal Cartref – diweddariad
Awdur	Meilys Heulfryn Smith (Rheolwr Rhaglen Trawsffurfio Iechyd a Gofal)
Aelod Cabinet	Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant)

Pwrpas

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad cryno o'r gwaith sy'n digwydd i sicrhau model newydd ar gyfer darpariaeth gofal cartref yng Ngwynedd.
2. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r gwaith pellach sydd angen digwydd, ynghyd ag amserlen amlinellol.
3. Bydd aelodau'r Pwyllgor eisoes yn ymwybodol o'r bwriad i symud i fodel lle mae un darparwr i bob ardal, gyda pherthynas waith agos ac adeiladol gyda holl aelodau eraill y timau adnoddau cymunedol.

Diweddariad

Darparwyr preifat

4. Mae dau gwmni preifat yn parhau i ddatblygu'r model gofal cartref newydd yn ardaloedd Caernarfon a Nefyn, ochr yn ochr â'r timau adnoddau cymunedol.
5. Rydym yn gweld buddiannau amlwg yn deillio o'r gwaith hwn. Er enghraifft, mae gofalwyr yn ardal Caernarfon wedi dod at ei gilydd i gynnal clwb cinio a chymdeithasu sydd yn dod â llawer o bobl yn y gymuned at ei gilydd. Yn Nefyn, mae'r darparwr wedi sicrhau gofod yn swyddu 'O Ddrws i Ddrws' (darparwr cludiant gymunedol) ac yn edrych ar gyfleon i gydweithio er budd y gymuned leol.

Darparwr mewnol

6. Mae'r sefyllfa yn ardal Tywyn wedi bod yn anodd, yn bennaf oherwydd pwysau aruthrol ar y farchnad gofal yn Ne Meirionydd. Bellach, rydym yn ail afael yn y gwaith peilota gyda'n darparwr mewnol, ac yn symud i batrwm gweithio ar sail shifftiau ar gyfer y staff gofal. Mae'n anodd cynnig hyblygrwydd i bobl sy'n derbyn gwasanaeth heb batrwm gwaith o'r math yma.
7. Yn ardal Porthmadog, mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod defnydd hyblyg o'r oriau gofal o fewn Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest, er mwyn ymateb mor effeithiol â phosib i anghenion gofal y trigolion.
8. Rydym wedi adnabod ardal y Bala fel ardal dda i weithredu'r model newydd yn ei gyfanrwydd yn gynt yn hytrach na'n hwyrach, gan mai'r darparwr mewnol ydy'r unig ddarparwr sy'n cynnig gofal yno. Ein bwriad yw gweithio gyda'r tîm yno i weithredu pob

agwedd o'r model newydd, ac i ddatblygu manyleb newydd ar gyfer system TG i gefnogi'r gwasanaeth.

9. Parheir i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r undebau llafur er mwyn eu hysbysu o'r datblygiadau ac ymateb i'w cwestiynau.

Achos Busnes

10. Cyflwynwyd achos busnes i'r Cabinet ym mis Gorffennaf eleni. Cafwyd cymeradwyaeth i'r model, a chytunwyd i gadw llygad barcud ar y risgiau ariannol all ddeillio o'r prosiect.
11. Mae'r achos busnes yn amlygu sut y gellid gwella amodau a thelerau i staff gofal cartref yn y sector allanol. Byddai'r cynnydd mewn cost caffael yn cael ei gyfarch drwy wario llai ar brosesau biwrocraidaidd a thrwy brynu mymryn yn llai o ofal yn ei gyfanrwydd. Mae'r gwaith o astudio'r system gyfredol a pheilotia ffyrdd gwahanol o weithio wedi rhoi tystiolaeth bod hyn yn realistig.
12. Rydym yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno'r achos busnes i'w Pwyllgor Cyllid a Chynllunio, a disgwylir penderfyniad o fewn yr wythnosau nesaf a fyddwn yn cyd-gomisiynu ai peidio.

Camau Nesaf

13. Y cam allweddol nesaf yn hanes y prosiect yw mynd allan i dendr, ac rydym wrthi'n paratoi ar gyfer hyn. Bwriedir cychwyn y broses yn ystod Ionawr neu Chwefror 2020.
14. Ochr yn ochr â hyn, mae rhaglen o hyfforddiant ar gyfer gofalwyr cartref mewnol ac allanol ar draws y Sir yn parhau i gael ei datblygu a'i gweithredu.
15. Mae gwaith yn mynd rhagddo, fel y nodwyd uchod, i baratoi'r gwasanaeth darparu mewnol i fedru gweithredu'r model newydd yn yr holl ardaloedd y bydd yn bresennol ynddynt. Bydd angen i hyd ddigwydd i gyd-fynd â phen draw'r broses dendro (erbyn tua Gorffennaf 2020).
16. Byddwn yn parhau i fesur llwyddiant gofal cartref i gyfarch yr hyn sy'n bwysig i bobl, ac yn codi ymwybyddiaeth o'r model newydd ymysg ein trigolion.